# Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Annerch Uwchgynhadledd Cymdeithas Sifil 4 Gwlad

**Dydd Mercher 20 Mawrth 2024: I'w ryddhau ar unwaith**

**Bydd arbenigwyr cymdeithas sifil blaenllaw o bob rhan o'r DU yn ymgynnull ym Mae Caerdydd ar 21-22 Mawrth** i nodi'r blaenoriaethau allweddol a rennir yn y flwyddyn etholiad hon, a thu hwnt. Bydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Gwir Anrhydeddus David TC Davies AS, yn cadarnhau yn yr uwchgynhadledd fod rôl y sector gwirfoddol yn bwysig tu hwnt, a bod gan gymdeithas sifil rôl werthfawr i'w chwarae wrth lunio polisïau'r DU ac wrth gysylltu cymunedau â phenderfynwyr.

Cyflwynir y digwyddiad proffil uchel hwn gan CGGC a Chanolfan Llywodraethiant Cymru, ynghyd â phartneriaid, y Consortia Hawliau Dynol yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban, a'r Gynghrair Cymdeithas Sifil, diolch i gyllid gan y Sefydliad Addysg Gyfreithiol.

Bydd y siaradwyr allweddol eraill yn cynnwys Gweinidog yr Wrthblaid dros Gymdeithas Sifil, Lilian Greenwood AS, ochr yn ochr â phobl academaidd, ymgyrchwyr ac arweinwyr elusennau blaenllaw o Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae elusennau wedi ymateb i lawer o'r argyfyngau mwyaf enbyd sy'n wynebu'r DU, fel yr argyfwng costau byw neu effeithiau COVID-19. Gyda llai o gapasiti, hinsawdd ariannol dynn a materion dybryd fel cydlyniant cymunedol a newid hinsawdd, bydd y trafodaethau hyn yng Nghaerdydd yn canolbwyntio ar sut gall mudiadau effeithio fwyfwy ar gyfraith a pholisi yn San Steffan. Bydd yr uwchgynhadledd yn gyfle hollbwysig i arweinwyr elusennau gronni eu harbenigedd a'u mewnwelediadau, a chynllunio ar gyfer cydweithio yn y dyfodol.

Bydd cyfranwyr arbenigol hefyd yn rhoi cipolwg ar yr heriau a'r cyfleoedd i ddod â lleisiau cymunedol o bedwar ban y DU ynghyd i ddadlau datblygiadau yn San Steffan. Bydd hyn yn cynnwys ystyried gweithrediad datganoli, sut mae

elusennau yn ymgysylltu â phenderfynwyr datganoledig a chanolog, a thrafodaethau a datblygiadau ynghylch diwygio cyfansoddiadol.

**Dywedodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru David TC Davies:** 'Mae'r sector gwirfoddol, mudiadau cymunedol ac elusennau yn chwarae rhan hanfodol yma yng Nghymru a ledled y DU.

'Mae eu hymrwymiad a'u cyfraniad yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan y llywodraeth ac roeddwn wrth fy modd o gael y cyfle i siarad yn yr uwchgynhadledd a chlywed sut mae unigolion a grwpiau yn gwneud cyfraniad mor bwysig i'n cymdeithas.'

**Dywedodd Ruth Marks, Prif Weithredwr CGGC:** 'Rydym yn falch iawn o groesawu mudiadau o bedwar ban y DU i Gymru ac estynnwn ein diolch diffuant i bawb am ymuno â ni ar gyfer y digwyddiad hwn. Mae hwn yn gyfnod hollbwysig i'r sector wrth inni ymateb i heriau newydd a gweithredu mewn hinsawdd ariannol dynn.

'Gobeithiwn y bydd y sgyrsiau hyn yn helpu pawb dan sylw – elusennau, pobl academaidd, ein partneriaid a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau – i gryfhau eu cydberthnasau, cael syniadau a chydweithio ar nodau cyffredin.'

__Diwedd__

**#4NationsCivilSociety**
**#CymdeithasSifil4Gwlad**

**Cyswllt:**
Carys Mair Thomas - carys@carysmair.com
07702096704

**Nodiadau i'r Golygydd**

- Teitl y gynhadledd Cymdeithas Sifil 4 gwlad hon yw **Cryfhau Effaith Cymdeithas Sifil ar San Steffan yn y Blynyddoedd i ddod: rhannu mewnwelediadau o bob rhan o'r DU**
- Mae'r gynhadledd hon yn cael ei chynnal gan grŵp o fudiadau a phrosiectau – Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), Canolfan Llywodraethiant Cymru Prifysgol Caerdydd, Cynghrair y Gymdeithas Sifil, Consortiwm Hawliau Dynol (Gogledd Iwerddon) a chonsortiwm Hawliau

Dynol yr Alban. Cyllidir y digwyddiad gan Y Sefydliad Addysg Gyfreithiol (gwefan Saesneg yn unig).

- Bydd siaradwyr ar gael o bob un o'r sefydliadau gan gynnwys Ruth Marks neu Matthew Brown o CGGC, Rosalind Stevens o'r Gyngharir y Gymdeithas Sifil, Kevin Hanratty o Gonsortiwm Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon a Mhairi Snowden o Gonsortiwm Hawliau Dynol yr Alban.
- Lluniau am ddim ar gael o bnawn Iau ymlaen.
- Os nad ydych yn dymuno derbyn ebyst o'n rhestr wasg, atebwch gan ddefnyddio'r gair STOP at carys@carysmair.com